



**COLEG
CAMBRIA**

Polisi Atal

Enw'r Polisi:	Polisi Atal
Dyddiad cwblhau'r Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb:	
Cyflwynwyd i'w gymeradwyo:	Chwefror 2017
Cymeradwywyd gan:	Y Grŵp Diogelu
Dyddiad cymeradwywyd:	Y Bwrdd 29/3/17
Dyddiad adolygu:	Chwefror 2020
Awdur:	Y Rheolwr Gwasanaethau Myfyrwyr

Cyflwyniad / Datganiad Polisi

Nod Coleg Cambria yw darparu amgylchedd sy'n parchu ac yn rhoi gwerth ar gyfraniad cadarnhaol ei holl ddysgwyr er mwyn eu galluogi i gyflawni eu potensial llawn.

I gyflawni hyn mae'r coleg yn cydnabod yr hawliau sylfaenol a ganlyn ar gyfer ei holl ddysgwyr:

- Eu trin gydag urddas a pharch
- Eu trin yn deg
- Eu bod yn derbyn anogaeth i gyrraedd eu llawn potensial

Bydd Coleg Cambria yn cydymffurfio â gofynion Deddf Diogelwch 2015 / Y Strategaeth Atal, er mwyn lleihau'r bygythiad o derfysgaeth i'r DU drwy atal pobl rhag dod yn derfysgwyr neu gefnogi gweithgarwch terfysgol.

Pwrpas

Mae Coleg Cambria yn cydnabod yn llawn ei gyfrifoldebau dros ddiogelu pob dysgwr gan gynnwys oedolion sy'n agored i niwed, a'i gyfraniad at hynny. Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r llywodraethwyr, y staff a'r holl wirfoddolwyr, waeth beth yw eu swyddogaeth, sy'n gweithio yn y coleg ac mae hefyd yn cynnwys siaradwyr gwadd allanol. Mae'n berthnasol i bob safle'r coleg, gan gynnwys:

- canolfannau allgymorth (gan gynnwys y canolfannau hynny ar eiddo cyflogwyr)
- is-gontractwyr (gan gynnwys rhaglenni hyfforddeiaethau)
- meithrinfeydd a chlybiau gwyliau (ar y safle ac oddi ar y safle)
- pob myfyriwr yn y gwaith a myfyrwyr profiad gwaith

Mae'r polisi a'r gweithdrefnau a nodwyd isod wedi ystyried y ddeddfwriaeth a ganlyn:

HM Government Revised Prevent Duty Guidance for England and Wales (July 2015)
Prevent Duty Guidance for Further Education Institutions in England and Wales.

Bydd y rhain yn ateb y safonau gofynnol gan Estyn and Ofsted.

Mae pedair prif ran i'r polisi:

- atal drwy addysgu a systemau cymorth bugeiliol
- gweithdrefnau ar gyfer canfod a rhoi gwybod am achosion neu amau achosion
- rhoi cymorth i ddysgwyr allai fod â syniadau eithafol sy'n rhan o ideoleg terfysgol
- darparu amgylchedd diogel a sicr ar gyfer dysgwyr yn y coleg.

Cwmpas:

Mae'r polisi a'r weithdrefn yn cynnwys pob math o ddysgwyr sy'n derbyn addysg a ddarperir gan y Coleg, gan gynnwys addysg bellach, dysgu yn y gwaith, dysgu oedolion yn y gymuned, addysg uwch a dysgwyr ar raglenni cyswllt ysgolion. Mae'r Coleg hefyd yn gweithio'n agos gydag isgontractwyr a phartneriaid darparu i sicrhau bod safonau eu polisiau a'u gweithdrefnau yn cyd-fynd a rhai'r coleg.

Cyfrifoldebau

Bydd y coleg yn:

1. Sicrhau bod dysgwyr yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu clywed, a'u bod yn gwybod pwy allant fynd atynt os ydynt yn poeni neu mewn anhawster.
2. Dynodi aelod o staff gyda chyfrifoldeb cyffredinol dros amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed, Arweinydd Diogelu Dynodedig (DSL) a fydd hefyd yn Bwynt Cysylltu Unigol ar gyfer Pryderon Atal (SPOC). Y Rheolwr Gwasanaethau Myfyrwyr yw'r DSL yn y coleg, a fydd yn sicrhau bod pob aelod o staff a'r llywodraethwyr yn gwybod yr enw a'r swyddogaeth dan sylw.
3. Dynodi aelodau staff gyda chyfrifoldeb uniongyrchol o ddydd i ddydd dros reoli pob mater sy'n gysylltiedig â phryderon ynglŷn â dysgwyr. Arweinyddion y Tîm Gwasanaethau Myfyrwyr fydd y rhain yn y coleg.
4. Cyfeirio pob pryder neu honiadau o gamdriniaeth, ar unwaith i'r asiantaethau priodol drwy'r SPOC.
5. Bydd y SPOC yn cynrychioli'r coleg mewn cyfarfodydd amlasiantaeth / ac yn sianelu cyfarfodydd y Panel sy'n gysylltiedig â'r atgyfeiriad. Bydd y SPOC yn gyfrifol am sicrhau bod y staff i gyd yn cael gwybod am y rheoliadau ac arferion a gafodd eu nodi yn y polisi hwn. Bydd y broses hon yn cael ei monitro gan y Grŵp Diogelu.

6. Y SPOC fydd yn ymdrin â cheisiadau gan yr heddlu/gwasanaethu diogelu ynglŷn â dysgwyr unigol yng Ngholeg Cambria, yn unol â deddfwriaeth gyfredol.
7. Dylid cadw cofnodion cyfrinachol a diogel o'r holl atgyfeiriadau o'r fath. Cyfrifoldeb y SPOC yw sicrhau bod copïau o ffurflenni atgyfeirio perthnasol a dogfennau cysylltiedig yn cael eu cadw'n ddiogel yn unol â Pholisi Diogelu Data'r Coleg. Mae cyfrinachedd yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchel a dim ond gyda'r rhai sydd angen gwybod y bydd amheuan ac ymchwiliadau yn cael eu rhannu. Bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu o dan arweiniad Heddlu Gwrthderfysgaeth Gogledd Cymru.
8. Cynhelir asesiad risg (Creu Cymunedau Dysgu Diogel) a fydd yn sicrhau bod polisiau a gweithdrefnau priodol ar waith i ganfod a chefnogi unigolion a allai fod yn agored i niwed, a hefyd i ddarparu goruchwyliaeth rheoli glir o'r gofynion. Bydd yr asesiad risg hwn yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau'n rheolaidd.
9. Sicrhau bod hyfforddiant digonol ar gael ar gyfer yr holl staff, gwirfoddolwyr a phartneriaid a bod cofnodion yn cael eu cadw.

Bydd y staff yn:

1. Rhoi gwybod ar lafar yr un diwrnod i'r SPOC am unrhyw amheuan neu drwy ddefnyddio'r Ffurflen Atgyfeirio Diogelu'r Coleg. Ni ddylai'r staff wneud unrhyw sylwadau ar ddatganiadau a wnaed na holi'r dysgwr. Rhoddir hyfforddiant priodol i'r staff i sicrhau y bydd hyn yn digwydd.
2. Cwblhau ffurflen Siaradwr Ymwelydd Allanol yn electronig 14 diwrnod cyn yr ymweliad.

3. Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb

I'w gwblhau yn unol â gweithdrefnau'r coleg.

Y Broses Ymgynghori a Materion Eraill

Bydd y coleg yn sicrhau bod y polisi ar gyfer Atal yn cael ei arwain gan Fforwm AU / AB Gogledd Cymru a Heddlu Gwrth Derfysgaeth Gogledd Cymru.

Bydd y coleg yn sefydlu ac yn cynnal Grŵp Diogelu, a fydd yn cael ei gadeirio gan y Pennaeth, a bydd yn sicrhau bod aelodau'r grŵp hwn wedi ymgymryd â'r hyfforddiant priodol. Bydd hyn yn cynnwys y SPOC.

Bydd y Grŵp Diogelu yn cydnabod swyddogaeth y SPOC ac yn trefnu cymorth a hyfforddiant. Byddant yn sicrhau bod y SPOC yn cynrychioli'r coleg mewn cyfarfodydd priodol.

Bydd y Grŵp Diogelu yn sicrhau bod pob aelod o staff a phob llywodraethwr yn gwybod:

- Enw'r SPOC a'i swyddogaeth.
- Bod ganddynt gyfrifoldeb unigol dros atgyfeirio pryderon ynglŷn ag atal, gan ddefnyddio'r sianelau cywir ac o fewn y terfynau amser y cytunwyd arnynt.

Mae'r Polisi hwn ar gael yn Saesneg ac yn Gymraeg.